





B A

# CANLLAWIAU I OFFER CEGIN



## DIOGELWCH

Wrth ddefnyddio offer trydanol, dylid cadw at reolau diogelwch sylfaenol bob amser, yn cynnwys y canlynol:

- Cofiwch ddiffodd holl offer coginio trydanol ar ôl eu defnyddio.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw offer os yw’r cebl neu’r plwg wedi’i niweidio, neu os yw’r offer wedi’i niweidio mewn unrhyw ffordd neu ddim yn gweithio’n iawn. **Rhowch wybod i Swyddfa’r Neuaddau yn syth am unrhyw offer diffygiol neu wedi’i niweidio.**
- Peidiwch â rhoi ceblau, plygiau neu beirianwaith offer mewn dŵr neu hylifau eraill rhag ofn tân, sioc drydan a niwed i bobl.
- Peidiwch â gadael bwyd yn coginio heb neb yn cadw llygad arno.
- Dim ond y bobl sy’n byw fel rheol yn y fflat hwn sydd â hawl i ddefnyddio offer trydanol o eiddo’r brifysgol a ddarperir yn y gegin hon.
- Cadwch holl arwynebau’r gegin yn lân a glanhau unrhyw hylif neu fwyd sydd wedi colli drosodd.
- Gadewch y gegin yn y cyflwr y cawsoch hi.
- Dylech gael gwared ar wastraff yn ofalus.

- Peidiwch â gadael y gegin tra byddwch yn coginio. Gwnewch yn siŵr bod y popty a'r hob wedi eu diffodd ar ôl coginio.
- Peidiwch â choginio pan fyddwch wedi bod yn yfed.
- Cofiwch ddefnyddio hwd y stôf pan fyddwch yn coginio i dynnu unrhyw stêm neu fwg o'r gegin.
- Peidiwch â gadael i unrhyw sosbenni o ddŵr neu fwyd ferwi drosodd. Os bydd unrhyw hylif yn colli drosodd ar yr hob cofiwch ei lanhau'n syth.
-

## Defnyddir yr hob i:

**Ffrio** – e.e. nionod neu facwn.

**Berwi** – e.e. wyau neu datws.

**Cynhesu** – e.e. cawl neu sawsiau.

## Wrth ddefnyddio'r hob dylech wneud y canlynol:

•

1. Codwch y tegell oddi ar ei stand.
2. Agorwch y caead nes ei fod i fyny'n syth. Peidiwch â phlygu'r caead fwy yn ôl!
3. Rhowch y swm rydych ei angen o ddŵr oer res ynddo. Mae marciau ar y tegell yn dangos isafswm ac uchafswm y dŵr y dylid ei roi ynddo. Peidiwch â rhoi dim digon o ddŵr

# OERGELL A RHEWGELL

-

# CYNNAL A CHADW EICH CEGIN AC OFFER

- Gofalwch bod holl offer cegin yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Peidiwch â defnyddio pethau garw fel padiau sgwrio gan y gall y rhain niweidio'r offer.
- Bydd glanhau'r offer yn gwneud y gegin fwy glanwaith, lleihau'r perygl o gael gwenwyn bwyd ac ni fydd yr offer yn rhydu.
- Peidiwch â rhoi pethau poeth ar yr wynebau gweithio. Bydd hyn yn achosi difrod.
- Os ydych yn colli unrhyw fwyd neu hylif, glanhewch o'n syth.
- Gall myfyrwyr gael dirwy am unrhyw ddifrod i offer, neu beidio â gofalu'n briodol amdano.

# GOLWG GYFFREDINOL

- Gwnewch yn siŵr eich bod deall y rhagofalon diogelwch cyffredinol a chadw atynt er mwyn sicrhau bod holl offer trydanol yn cael eu defnyddio'n briodol
- Peidiwch â defnyddio'r offer ar gyfer unrhyw beth heblaw ei ddefnydd priodol.
- I osgoi sioc drydan, peidiwch â rhoi unrhyw geblau mewn dŵr neu hylif arall neu'n agos atynt.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw offer os yw'r cebl neu'r plwg wedi'i niweidio mewn unrhyw ffordd. Rhowch wybod am y difrod ar unwaith i'r Swyddfa Neuaddau.
- Peidiwch â gadael i unrhyw geblau hongian dros ymyl bwrdd neu gownter, neu'n cyffwrdd unrhyw fannau poeth.
- Peidiwch â gorchuddio unrhyw offer neu ei roi'n agos at ddeunyddiau fflamadwy.
- Peidiwch â gadael bwyd yn coginio heb neb yn cadw llygad arno.
- Gofalwch bod yr holl offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd.